**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1371
Ein cyf/Our ref MA/LW/02465/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

08 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr ar 2 Hydref ar ran David Thomas ynghylch deiseb P-06-1371 Dylid ailagor y safle rheilffordd yn Nantyderi, Goytre Fawr, i'n cynnwys ni ym Metro De Cymru.

Nid Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar linell y Mers a'i seilwaith. Llywodraeth y DU yw'r perchennog a thrwy Network Rail mae'n gyfrifol am yr holl waith rheoli a datblygu. Mae hyn yn wir am y rhan fwyaf o'r rheilffordd yng Nghymru, ac eithrio rheilffyrdd Craidd y Cymoedd. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ein cais am ddatganoli rheilffyrdd pellach yn gyson ac wedi methu â buddsoddi'n ddigonol yng Nghymru.

Gan nad yw seilwaith y rheilffyrdd wedi ei ddatganoli yn briodol ac yn absenoldeb setliad ariannu teg, mae angen i Lywodraeth y DU gyflawni eu cyfrifoldebau dros wella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys ariannu datblygu ac adeiladu gorsafoedd newydd. O bryd i'w gilydd mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi proses ymgeisio gystadleuol ar gyfer datblygu gorsafoedd rheilffyrdd newydd ledled Cymru a Lloegr, roedd y rownd ddiweddaraf yn 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ceisiadau i gefnogi prosiectau i ailagor gorsafoedd ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn gwneud yn well ym mhroses Llywodraeth y DU pan fo cefnogaeth gymunedol gref wedi'i threfnu, gydag achos busnes datblygedig.

O ystyried yr angen i flaenoriaethu buddsoddiad cyfyngedig, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Adran Drafnidiaeth y DU, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail i ddatblygu llwybr â blaenoriaeth ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried gorsafoedd newydd posibl. Bydd y llwybr hwn yn pennu ein blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer buddsoddi mewn rheilffyrdd, fodd bynnag, os daw prosiectau eraill i'r amlwg gydag achos cryf, mae'n bosibl y gellir eu hychwanegu at y rhestr hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change